Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET*

***(YN FWRIADOL YN DILYN CYFARFOD CYD Y CABINET PWYLLGORAU CRAFFU SGILIAU ADDYSG A DIWYLLIANT)***

***DYDD MERCHER, 21 HYDREF 2020***

***O BELL TRWY TEAMS***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 3 - 16)*
   - 2 Medi 2020
   - 17 Medi 2020

3. Craffu Cyn Penderfynu
   - Dewis eitemau priodol o Is-adran y Cabinet (Cyllid) Agenda'r pwyllgor ar gyfer craffu cyn penderfynu (Cyllid y Cabinet Adroddiadau is-bwyllgor wedi'u hamgáu ar gyfer Aelodau Craffu)

4. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi’u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Iau, 15 Hydref 2020**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **M.Harvey**

**Is-gadeirydd:** **S.Rahaman**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 2 Medi 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, T.Davies, S.Curran, S.Blewett, S.Brennan, N.Headon, N.Pearce, C.Plowman, M.Roberts, J.Woodman-Ralph a/ac A.Manchipp |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |
| **Arsylwyr:** | H.Neary |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Rahaman parthed – Hen Safle Lido Afan (Yn eithriedig dan Baragraff 14) gan fod ganddo fusnes teuluol wrth ymyl y safle.

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Diweddaru a Monitro'r Gyllideb

Derbyniodd Aelodau drosolwg o oblygiadau ariannol COVID-19 ar Adnoddau Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2020/21, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod camgymeriad ar dudalen 4 yr adroddiad sy'n datgan 'ac rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â £1 arall'; cadarnhawyd y dylid diwygio'r ffigur i £1.8m.

Nododd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £188.5m yn wreiddiol i awdurdodau lleol adennill costau a cholled incwm drwy'r Gronfa Caledi - roedd hyn yn berthnasol i'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Mehefin yn bennaf. Nodwyd bod y cyngor wedi cyflwyno hawliadau am wariant ychwanegol a gafwyd (£4.133m) a'i fod yn dal i aros am gadarnhad o'r ad-daliad am yr hawliad a wnaed ym mis Gorffennaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru, ers ysgrifennu'r adroddiad, wedi cytuno i ad-dalu costau o £409k ar gyfer prydau ysgol am ddim a thua £207k o gostau gwasanaethau cymdeithasol; gan adael tua £156k o arian dyledus ar gyfer costau ychwanegol, yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddent yn eu had-dalu. Soniwyd bod y rhan fwyaf o'r arian dyledus ar gyfer costau caledwedd TGCh ychwanegol yr oedd y cyngor wedi'u cael, lle'r oedd Llywodraeth Cymru ond yn ad-dalu 50% o gostau a 25% o gostau cyfathrebu a marchnata'r cyfryngau.

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu gwerth £2.3m o incwm a gollwyd mewn perthynas â pharciau, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, theatrau, prydau ysgol, gwastraff masnach a pharcio; a bod y cyngor wedi cyflwyno cais pellach am £1.8m a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ysgolion, Hillside, incwm rhent o wasanaethau amgylcheddol ac incwm o brosiectau cyfalaf. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen eglurhad o hyd ynghylch sut y byddai Llywodraeth Cymru'n adolygu hawliadau ar gyfer colled incwm, ond roedd yr adroddiad yn tybio y byddai £400k o'r £1.8m yn cael ei ad-dalu ar hyn o bryd.

Yn dilyn hyn, cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru, ar 17 Awst 2020, wedi cyhoeddi £264m o gyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol liniaru ymhellach yn erbyn effaith ariannol COVID-19 ac, fel rhan o'r cyhoeddiad, nodwyd y byddai £25m yn gysylltiedig â glanhau ysgolion. Nodwyd, o ganlyniad i hyn, fod y gorwariant rhagamcanol

gwreiddiol o £10m a adlewyrchwyd yn y dadansoddiad o'r adroddiad yn debycach i £5m ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chynnydd y blaengynllunio ariannol a'r taliadau incwm a gollwyd. Nodwyd nad oedd unrhyw sicrwydd gan Drysorlys y DU na'r Llywodraeth y byddai taliadau canlyniadol pellach yn cael eu rhoi yn y dyfodol, felly ni allai Llywodraeth Cymru warantu unrhyw daliadau incwm pellach a gollwyd; fodd bynnag, roeddent yn talu'r rhan fwyaf o'r hawliadau ac yn monitro'n effeithlon. Soniwyd y byddai angen i'r cyngor ddechrau edrych ar eu trefn treth y cyngor eu hunain, lle bu rhywfaint o arian ychwanegol ar gyfer cynlluniau rhyddhad treth y cyngor; ychwanegwyd y byddai gan y cyngor well syniad dros y misoedd nesaf o'r cronfeydd wrth gefn posib y byddai angen eu defnyddio er mwyn llenwi bwlch y gyllideb ar gyfer eleni. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Swyddogion yn dechrau edrych ar gyllideb y flwyddyn nesaf dros y ddeufis nesaf ac y byddent yn dod ag ystyriaethau i Aelodau yn ôl ym mis Hydref; soniwyd bod Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiadau o wariant i geisio nodi faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2021/22 a'r blynyddoedd dilynol, a fyddai'n rhan hanfodol o gyllidebau'r dyfodol.

O ran colli incwm yn Hillside, gofynnodd yr Aelodau a oedd Swyddogion wedi cael rhagor o wybodaeth o ran a fyddai cymorth yn cael ei ddarparu. Nodwyd bod gan Hillside orwariant o £803k; roedd y cyngor wedi gofyn am y chwarter cyntaf (£467k) gan Lywodraeth Cymru, yn ychwanegol i'r £2m a oedd ar gael ganddynt i'w fuddsoddi mewn gwella'r cyfleusterau yn Hillside. Ychwanegwyd y byddai angen rhywfaint o'r arian hwnnw i wrthbwyso'r ffaith nad oedd dwy ystafell ar gael tra eu bod yn cael eu huwchraddio a bod rhywfaint o gymorth wedi'i ddarparu o fewn y £2m oherwydd rhai o'r cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn achosi'r gorwariant rhagamcanol. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r mater penodol hwn eto, ond roeddent yn gobeithio y byddent yn gwneud hyn yn y dyfodol agos ac, yn dilyn hyn, byddai Swyddogion yn hysbysu Aelodau fel rhan o'r adroddiad monitro cyllideb nesaf.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, nodwyd bod gan Hillside gontract bloc gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) a oedd yn gwarantu taliad am 6 gwely. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y GCI yn dal i dalu am y 6 gwely hyn, a chadarnhaodd Swyddogion eu bod nhw, ac er na fyddai pob un ohonynt yn cael eu defnyddio bob amser, roeddent yn talu am argaeledd gwarantedig y gwelyau, a oedd wedi'i gynnwys yn y ffrydiau incwm am y flwyddyn. Nodwyd bod

Swyddogion yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ad-dalu'r arian i Hillside a'i bod yn bwysig parhau i bwyso ar hyn gan nad yw'r cyngor yn gwneud elw nac yn cynhyrchu incwm o Hillside.

Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion egluro ystyr derbyniadau gorchymyn atebolrwydd gan y'u crybwyllwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Cadarnhawyd, pan nad yw rhywun wedi talu treth y cyngor a/neu ardrethi busnes, y gallai'r llysoedd roi gorchymyn atebolrwydd i'r cyngor, sy'n ychwanegu ffi at y bil sy'n weddill.

Nodwyd bod rhai ffrydiau incwm wedi'u hailgyflwyno o fis Medi ymlaen megis taliadau parcio ceir a phrydau ysgol i ddisgyblion, a byddai’r rhain yn cael eu hystyried a'u cynnwys ymhellach mewn amcanestyniadau drwy weddill y flwyddyn.

O ran cymorth treth y cyngor, tynnwyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai £2.85m ar gael i ariannu'r nifer ychwanegol o hawliadau a chostau cymorth treth y cyngor a dalwyd gan gynghorau ar gyfer chwarter cyntaf eleni; Amcangyfrifodd swyddogion y byddai gwerth cyfran Castell-nedd Port Talbot tua £120k, ac nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth ynghylch hawlwyr cymorth treth y cyngor (CTRS) ac a oedd y tybiaethau a gynhwyswyd yn yr adroddiad, lle mae'n nodi costau o £529k dros gyllideb sy'n deillio o CTRS, a allai gynyddu i £1m a mwy yn ystod weddill 2020/21, yn cynnwys dod â'r cynllun ffyrlo i ben a'r diswyddiadau a diweithdra anochel y gellir eu cael o ganlyniad i hynny. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y gallai cost casglu treth y cyngor a chymorth treth y cyngor gynyddu'n sylweddol pe bai ffyrlo'n arwain at ragor o bobl yn colli swyddi pan ddaw i ben, fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, byddai Llywodraeth Cymru’n ad-dalu cynghorau ledled Cymru ac nid oedd yr union ffigur ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi'i gadarnhau eto.

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd Llywodraeth Cymru'n ariannu penderfyniadau lleol, felly pe bai Castell-nedd Port Talbot yn penderfynu fel cyngor i wneud rhywbeth nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth yr holl gynghorau i'w wneud, byddai angen ystyried y costau. Enghraifft o hyn oedd prynu mygydau wyneb.

Diolchodd y Pwyllgor i holl weithwyr y Gyfarwyddiaeth Gyllid am eu gwaith caled parhaus yn ystod pandemig COVID-19.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

3. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:**Gwahardd y cyhoedd, yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o

Ddeddf Llywodraeth Leol 1972,
ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol
a oedd yn cynnwys datganiadau posib
o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym
Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf
uchod.

4. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Hen Safle Lido Afan

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am hen Safle Lido Afan fel a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

| <u>**Aelodau sy'n Bresennol:**</u> | <u>**Dydd Iau, 17 Medi 2020**</u> |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, C.Furlow-Harris, T.Davies, R.Headon, S.Blewett, C.Plowman, N.Pearce a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

## 1. <u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P Richards | Parthed cynrychiolaeth y cyngor ar gyrff allanol gan mai ef yw cynrychiolydd y cyngor ar gyfer gwasanaethau Gofal a Thrwsio Castell-nedd Port Talbot. |
| Y Cynghorydd S Rahaman | Parthed cynrychiolaeth y cyngor ar gyrff allanol gan ei fod yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot ac ar hyn o bryd mae'n ysgrifennydd y gymdeithas. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Reynolds | Parthed y newidiadau i gynrychiolaeth Tai Tarian gan mai hi yw cynrychiolydd y cyngor ar fwrdd gwirfoddol Tai Tarian. |
| Y Cynghorydd D Jones | Parthed cynrychiolaeth y cyngor ar gyrff allanol gan ei bod yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot ac mae'n aelod o fwrdd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (CGGCNPT) mewn cymhwyster annibynnol. |
| Y Cynghorydd S Penry | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol gan ei bod yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar fwrdd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (CGGCNPT). |
| Y Cynghorydd L Jones | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol gan ei bod yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot . |
| Y Cynghorydd N Hunt | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol gan ei fod yn aelod o fwrdd Ardal Gwella Busnes Port Talbot (BID) mewn cymhwyster annibynnol. |

## 2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024

Eglurwyd bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau mewn dwy ran:

- Rhan un – yr amcanion cydraddoldeb strategol a'r holl wybodaeth berthnasol arall yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y cynllun er mwyn sicrhau bod y cyngor yn bodloni'r holl reoliadau cydraddoldeb. Soniwyd bod y comisiwn yn gofyn bod

yr holl gynlluniau cydraddoldeb strategol ar waith erbyn mis Hydref.

Nodwyd bod angen cwblhau gwaith ar y camau gweithredu a fydd yn sail i gyflawni'r amcanion a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; roedd y gwaith hwn eisoes wedi dechrau, gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal o fewn y Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du ac ymhlith y staff, a byddai'n ffurfio cynllun gweithredu.

- Rhan dau – y cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion a gyflwynir i Bwyllgor Craffu'r Cabinet tua diwedd y flwyddyn.

Awgrymodd yr Aelodau pan fyddai unigolion yn cyflwyno cais am swydd o fewn y cyngor, y dylid rhoi rhif i'w cais yn hytrach na'u henw er mwyn osgoi unrhyw gysylltiadau â rhyw, ethnigrwydd ac ati. Nodwyd y gellid trafod hyn yn ail ran cyflawni'r cynllun cydraddoldeb strategol, pan fyddai'r camau gweithredu'n cael eu cyflwyno.

Cafwyd dyfyniad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd sef 'fel person di-Gymraeg sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, rwyf eisoes yn teimlo bod polisi ac arferion Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu yn fy erbyn'. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr unigolyn wedi rhoi unrhyw fanylion mwy penodol mewn perthynas â'i bryderon. Nodwyd na ddarparwyd rhagor o fanylion, fodd bynnag byddai swyddogion yn ceisio penderfynu beth arall y gallai'r cyngor fod yn ei wneud a pha wybodaeth ychwanegol y gellid ei chasglu mewn ymarferion ymgynghori yn y dyfodol.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

<u>Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol</u>

(Cadarnhaodd y Cynghorydd S Rahaman ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

(Cadarnhaodd y Cynghorydd P Richards ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

(Cadarnhaodd y Cynghorydd D Jones ei budd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

(Cadarnhaodd y Cynghorydd N Hunt ei fudd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol i ystyried manteision ac anfanteision
Aelodau'n cael eu cynnwys yn ffurfiol ar fyrddau gwirfoddol detholiad o sefydliadau. Roedd swyddogion wedi cynnig dewisiadau amgen i'r trefniad i amddiffyn Aelodau rhag y gwrthdrawiadau buddiannau a fyddai'n codi mewn perthynas â pharhau â'r trefniadau presennol.

Amlygwyd nad oedd canllawiau penodol gan CLILC ar y mater hwn, ac yn hytrach mater i gynghorau unigol oedd penderfynu pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith a pha rôl roeddent yn rhagweld y byddai eu Haelodau'n ei chael yn y gymuned.

O ran yr hyn yr oedd cynghorau eraill wedi'i wneud, nodwyd bod nifer o gynghorau lle nad oedd Aelodau'n rhan o fyrddau a chynghorau eraill lle roeddent yn gwneud hynny, a reolwyd trwy'r dull gwrthdrawiadau buddiannau. Dywedodd swyddogion fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot am sicrhau bod gan Aelodau'r gallu i allu siarad, pleidleisio a gwneud sylwadau ar unrhyw fater o fewn eu rôl fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ac na fyddai bod yn aelodau o rai o'r byrddau, lle byddai'n rhaid iddynt weithredu er eu budd hwy eu hunain hefyd, yn anfanteisiol iddynt. Nodwyd bod rheoli'r budd yn y dyfodol yn bwysig yn ogystal â nodi sut y gellid ei reoli trwy wahanol ddulliau; gallai'r dulliau hyn ganiatáu i Aelodau gael lefel o reolaeth a mynediad at wybodaeth fel nad oedd eu rôl fel Cynghorydd Bwrdeistref Cefn Gwlad yn llai a gallent wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r hyn sy'n digwydd yn y gymuned, heb i Aelod fod yn rhan o'r bwrdd.

Teimlai rhai Aelodau fod ganddynt fwy o fanteision o allu bod yn rhan o'r sefydliadau na pheidio, oherwydd y pwerau a'r dylanwad y byddent yn eu hildio. Soniwyd bod y cyngor yn gallu gweithredu hyd yn oed pe bai'n rhaid i Aelod dynnu'n ôl o gyfarfod. Nododd swyddogion y gallai Aelodau, fel dewis arall, drafod eu mater penodol â swyddog yn y cyngor i arfer y mesurau a fyddai ar gael dan y trefniadau cytundebol a grant, er mwyn gallu cael yr wybodaeth a datrys yr ymholiadau penodol wrth iddynt ddatblygu.
Eglurwyd, pan benodwyd Aelodau gan y cyngor i fod yn aelodau ar gyrff allanol, nad ydynt bellach yn cynrychioli'r cyngor; yn hytrach, y cyrff allanol y'u penodwyd iddynt yn unig fydd yn gyfrifol am eu buddiannau. Ychwanegwyd nad oedd Aelodau'n rhan o fyrddau i geisio dylanwadu ar y sefydliad hwnnw, roeddent yno i'w cynrychioli.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r cyngor gael trafodaeth â’r sefydliadau, i gynnig bod ganddynt statws arsylwr yn lle cael cynrychiolaeth lawn o'r bwrdd wedi'i henwebu gan y cyngor. Amlygwyd y gallai hyn fod yn ffordd o sicrhau y gallai sefydliadau barhau i elwa o gyfranogiad a phrofiad Aelodau lleol heb fod unrhyw wrthdrawiadau buddiannau’n peryglu'r sefydliad neu'r Aelodau.

Mynegwyd pryder ynghylch difreinio'r cyngor o’r cyrff allanol y mae'n eu hariannu, a gwnaed awgrym y dylid cael arsylwyr di-bleidlais ar y byrddau i sicrhau y gellid craffu'n fewnol ar y modd y defnyddir cyllid.

Amlygodd swyddogion fod nifer o ffyrdd y gallai'r cyngor sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio trafodaethau a gweithdrefnau yng nghyfarfodydd bwrdd y cyrff allanol; fel y soniwyd yn gynharach, roedd gan y cyngor gytundebau grant a threfniadau contract ar waith a oedd yn galluogi Swyddogion ac Aelodau i weld dogfennau megis cynlluniau busnes, datganiadau o gyfrifon ac adroddiadau monitro. Nodwyd y gellid gwneud trefniadau i Aelodau dderbyn adroddiadau rheolaidd ar fuddsoddiad y cyngor a phe bai cyfleoedd eraill i Aelodau gymryd rhan yn y cyrff allanol, gellid ymchwilio ymhellach i hyn. Ychwanegwyd bod gan y cyngor drefniad cryno gyda'r sector gwirfoddol yn fwy cyffredinol a bod cyfle o fewn y partneriaethau hynny, i edrych ar sut mae'r cyngor yn gweithio gyda'r cyrff hynny.

Soniwyd y gallai Aelodau barhau i ddewis bod yn rhan o fwrdd mewn cymhwyster personol yn hytrach na chael eu dyrannu i wneud hynny gan y cyngor, fodd bynnag byddai angen iddynt fod yn ymwybodol o'r gwrthdrawiadau buddiannau.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â geiriad yr argymhellion a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn enwedig y rhestr o gyrff allanol y manylir arnynt yn yr argymhelliad. Cadarnhawyd bod swyddogion wedi mynd drwy'r rhestr o gyrff allanol lle’r oedd y cyngor yn gwneud enwebiadau ar hyn o bryd a'r cyrff allanol a ariannwyd gan y cyngor ar hyn o bryd ond lle gwnaed enwebiadau'n wirfoddol, a'u cynnwys yn yr adroddiad. Ychwanegwyd bod y polisi newydd yn amlygu na fyddai'r cyngor yn ceisio gwneud yr enwebiadau hyn yn y dyfodol ar gyfer y sefydliadau penodol hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant ffurfiol i'r argymhelliad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:-

'Argymhellir bod swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o benodi arsylwyr i fyrddau sefydliadau lle mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi tynnu cynrychiolwyr o'r byrddau y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad'.

Penderfynwyd galw rhestr enwau at ddibenion penderfynu ar y bleidlais; methodd y gwelliant o ganlyniad i alw'r rhestr enwau.

Yna cynigiodd ac eiliodd Pwyllgor Craffu'r Cabinet y cynigion cychwynnol yn yr adroddiad:-

- Argymhellir nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot bellach yn enwebu cynrychiolwyr i fyrddau sefydliadau a ariennir gan y Cyngor a lle mae cyfranogiad ar fyrddau'r sefydliadau hynny'n wirfoddol.
- Hysbysir Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Gofal a Thrwsio Castell-nedd Port Talbot, Ardal Gwella Busnes Castell-nedd, Ardal Gwella Busnes Port Talbot a Chymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot, ar yr amod y cytunir ar argymhelliad 1, fod y rhai a benodir gan y cyngor presennol yn dymuno ymddiswyddo o'r sefydliadau hyn ac o ddyddiad ymddiswyddiad o'r fath, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot bellach yn bwriadu penodi cynrychiolwyr aelodau etholedig i'r sefydliadau hyn.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

(Croesawyd y Cynghorydd S Rahaman, y Cynghorydd P Richards, y Cynghorydd D Jones a'r Cynghorydd N Hunt yn ôl i'r cyfarfod)

<u>Newidiadau i Gynrychiolaeth Tai Tarian</u>

Cyflwynwyd adroddiad mewn perthynas â diswyddo Aelodau Etholedig o fwrdd gwirfoddol Tai Tarian Limited i'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai Tai Tarian yn dal i gael ei ddal i gyfrif heb gynrychiolaeth Aelodau lleol ar y bwrdd, er mwyn sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu a gofynnwyd am gymhariaeth â threfniadau atebolrwydd ar gyfer cymdeithasau cydfuddiannol trosglwyddo stoc mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

Hysbysodd swyddogion y Pwyllgor o’r cytundeb trosglwyddo manwl iawn oedd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot gyda Tai Tarian a luniwyd adeg trosglwyddo'r stoc tai yn 2011; roedd y cytundeb trosglwyddo hwn yn dal yn ddilys ac yn cynnwys nifer o rwymedigaethau cyfreithiol yr oedd yn rhaid i Tai Tarian gydymffurfio â nhw, ac roedd rhai rhwymedigaethau cytundebol hefyd y bu'n rhaid i'r cyngor gydymffurfio â hwy. Nodwyd bod fframweithiau a dulliau ar waith i sicrhau bod Tai Tarian a'r cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin, ac os nad oedd y naill barti na'r llall yn cydymffurfio, roedd prosesau anffurfiol a ffurfiol ar waith dan y contract i ddal pobl i gyfrif, gan gynnwys yr atgyfeiriad i ddatrys anghydfod ac achos llys. Ychwanegwyd bod yr Aelodau hefyd wedi cael cyfle i wahodd Tai Tarian i fod yn rhan o'r broses graffu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chael statws arsylwr ar fwrdd gwirfoddol Tai Tarian. Eglurodd swyddogion mai'r ddarpariaeth yn y cytundeb trosglwyddo yw y gall y cyngor enwebu Aelodau os yw’n dymuno gwneud hynny ac nad oes gorfodaeth dan y cytundeb ar hyn o bryd.

Nowyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd nad oedd y cytundeb trosglwyddo bellach yn mynnu bod yn rhaid i Tai Tarian fod yn bresennol mewn pwyllgorau craffu, ond yn hytrach gellid estyn gwahoddiad; Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn wedi digwydd erioed, a dywedodd swyddogion fod rhwymedigaeth ar Tai Tarian, dan delerau'r cytundeb trosglwyddo, i fod yn bresennol mewn unrhyw bwyllgorau craffu y byddai'r cyngor yn eu cynnal am chwe blynedd o'r dyddiad trosglwyddo; fodd bynnag, daeth y chwe blynedd i ben yn 2017, felly nid oedd unrhyw orfodaeth arnynt mwyach i fod yn bresennol mewn unrhyw bwyllgorau craffu.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn ag atebolrwydd a pherthynas y cyngor â Tai Tarian yn y dyfodol. Amlygodd swyddogion pe bai gan Aelod fater penodol yr oedd yn ymdrin ag ef ar ran etholwr, y byddai ganddo hawl i'w godi gyda Tai Tarian; fel arall pe bai Aelodau'n ei chael hi'n anodd cysylltu â Tai Tarian neu fynd ar drywydd materion gyda hwy, gallent ei godi gyda swyddog o'r cyngor a allai nodi a ellid ymdrin â'r mater drwy unrhyw ddulliau dan y cytundeb trosglwyddo.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant ffurfiol i'r argymhelliad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:-

'Argymhellir bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gofyn i Tai Tarian dderbyn arsylwyr y cyngor yn lle aelodau bwrdd ffurfiol'.

Penderfynwyd galw rhestr enwau at ddibenion penderfynu ar y bleidlais; methodd y gwelliant o ganlyniad i alw'r rhestr enwau.

Yna cynigiodd ac eiliodd Pwyllgor Craffu'r Cabinet y cynigion cychwynnol yn yr adroddiad, gyda’r gair ‘neilltuedig' yn cael ei roi yn lle'r gair 'dau':-

- Argymhellir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn hysbysu Tai Tarian Limited bod y ddau aelod neilltuedig a benodwyd ganddynt yn dymuno ymddiswyddo o'r bwrdd gwirfoddol ac o ddyddiad ymddiswyddiad o'r fath, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bwriadu penodi cynrychiolwyr aelodau etholedig mwyach i fwrdd gwirfoddol Tai Tarian Limited.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**